Cyfres Llanbedr | Mawrth, 1933. | Cyf. 33. Rhif 3.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

GWAWR Y GWANWYN.
YSBRYDEGAETH, CREFYDD A BYWYD.
GWANWYN.
GRUFFYDD JONES DAVIES, PENLAN.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner at

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,'
LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. MAWRTH, 1933. CYF. XXXIII. RHIF 3.

Gwawr y Gwanwyn.

MAE'N fendith dy weled ar frest y clawdd,
Ar frest y clawdd wedi dod yn ôl,
Ynot, friallen, caf gip ar y wawr,
Y wawr sy'n torri ar fryn a dôl.

Bum innau, hefyd, o'r golwg yn hir,
O'r golwg yn hir mewn distaw gell,
Ni wyddost, f' anwylyd, ar glawdd y lôn,
Mae ynot, heddiw, caf obaith gwell.

Tybed, a fuost fel minnau'n glaf,
Fel minnau'n glaf am fisoedd maith ?
Ac yn ofni obry'n nuwch y pridd
Dy fod yn nesu at ben y daith ?

Hwyrach, y daw rhywun ar hyd y lôn,
Ar hyd y lôn heb dy weled di,
Ond mwynach na dim yw chwerthin y wawr
Ar frest y clawdd gan fy nghalon i.

Prengwyn. IFAN JONES.

Ysbrydegaeth, Bywyd a Chrefydd.

WRTH geisio synio sut oedd ufuddhau i gais, neu yn hytrach i orchymyn y Golygydd i anfon erthygl, ceisiais feddwl pa bwnc fu yn diddori ein brodyr Undodaidd tu hwnt i glawdd Offa yn ystod y misoedd diweddaf. Cofiais y bu cryn dipyn o ohebu ar dudalennau ein cylchgrawn Saesneg ynglyn a beth ddylai fod gogwydd ein heglwysi ni tuag at y mudiad a adwaenwn o dan yr enw Ysbrydegaeth. Ni wn i pa faint o ddiddordeb gymerir gan bobl Sir Aberteifi yn y mudiad hwn, nac ychwaith yn y daliadau a ymgorfforir yn y mudiad. Gwn fod y mudiad ysbrydegol wedi cael gafael gref ar drigolion Sir Forgannwg. Mae llawer i bentref a chwm yn Sir Forgannwg lle y tybiaf fod mwy o lawer o bobl yn mynychu yr eisteddiadau (seances) ysbrydegol nag y sydd yn mynychu yr addoliad gyda'i gilydd. Teimla llawer fod y ffaith yma yn hawlio ystyriaeth ddifrifol pobl sydd yn cymryd diddordeb mewn materion crefyddol. Hyd y gwn i nid oes unrhyw un o'r enwadau Protestanaidd wedi mynegi barn swyddogol ar y mudiad. Mae yr eglwys Babaidd wedi condemnio Ysbrydegaeth yn ei ffordd drwyadl ei hun. Credaf mai gyda chryn dipyn o ddrwgdybiaeth yr edrychir ar y mudiad gan y mwyafrif o feddylwyr ac arweinwyr perthynol i'r enwadau Protestanaidd. Hwyrach fy mod yn camsynied yn hyn; hawdd yw camfarnu yn absenoldeb mynegiant o farn onest. Ond gan fod Undodiaid yn ymffrostio, (ac ar adegau yn byw i fyny a'r ymffrost) mai deffiniad teilwng o Undodiaeth yw "Crefydd y meddwl agored", rhesymol fyddai disgwyl na chondemnir heb ymchwil. Ac yn sicr mae y sefyllfa yn gyfryw ag sydd yn gofyn am ymchwil drwyadl i honiadau yr ysbrydegwyr, a'r esboniad a roddir ganddynt ar y pethau hynod a ddywedir a ddigwydd iddynt yn yr eisteddiadau.

A barnu oddiwrth natur yr ohebiaeth a ymddangosodd ar dudalennau yr *Inquirer*, gellid tybio fod cryn nifer o Undodiaid blaenllaw, yn weinidogion a lleygwyr, wedi eu hargyhoeddi eisoes fod honiadau hanfodol yr Ysbrydegwyr yn gyfryw na ellir mo'u hameu. Yn wir, â rhai ohonynt mor bell ag awgrymu y dylid troi ein heglwysi gwannaf yn eglwysi ysbrydegol, a thrwy hynny sicrhau y gwnaent ennyn diddordeb y dorf! Ymddengys fod y ffaith fod neuaddau yr ysbrydegwyr yn llawn ar Nos Sul a chapeli yr Undodiaid yn hanner gwag neu waeth ar fore Sul yn peri gofid dirfawr i rai o'n pobl!

Ond beth am Ysbrydegaeth? Prin y credaf fod angen esbonio i ddarllenwyr yr YMOFYNNYDD beth yw Ysbrydegaeth. Cred Ysbrydegwyr fod ysbrydion y meirw yn medru "dyfod yn ôl", neu o leiaf anfon cenadwri drwy gyfryngau neillduol ac o dan

amgylchiadau neillduol, i ni y bobl sydd eto heb ymadael a'r ddaear hon. Mae y cyfryngau a'r amgylchiadau yn bwysig, ac nid llai pwysig yw natur rhai o'r digwyddiadau a dderbynir fel arwyddion fod yr ysbrydion yn bresennol yn yr ystafell lle y cynhelir yr eisteddiad: dodrefn yn cael eu symud a'u dyrnodio gan ryw gyfryngau nas medrir eu canfod, offerynnau cerdd yn cael eu canu gan ddwylaw anweledig,—dyma rai o'r arwyddion fod yr ysbrydion yn bresennol. Clywir lleisiau dieithr hefyd, a daw'r genadwri oddiwrth yr ysbrydion drwy y "medium", a hwnnw (neu honno) mewn llewyg, ac yn anymwybodol o'r hyn sydd yn digwydd, ac o'r hyn a ddywedir ganddo neu drwyddo.

Nid teg hwyrach yw i neb ymdrin a dilysrwydd y dystiolaeth yma ond y sawl sydd yn feddiannol ar brofiad personol. Yr unig beth fedr sylwedydd di-ragfarn ddweyd yw, fod natur a swm y dystiolaeth yn gyfryw fel nas medrir ei hanwybyddu na'i amharchu. Credaf y cytuna y rhan fwyaf o bobl ddiragfarn fod pethau yn digwydd nas medrir eu hesbonio yn "naturiol"! Mae llawer o bobl nad ydynt yn ysbrydegwyr argyhoeddedig yn foddlon addef nad oes ganddynt yr un ddamcaniaeth fedr gyfrif am y ffeithiau yn well na damcaniaeth yr ysbrydegwyr.

Ond a chaniatau ei bod hi yn bosibl drwy'r cyfryngau gofynnol i gyfathrachu ag ysbrydion ymadawedig, onid y gofyniad pwysig wedi'r cyfan yw—Pa radd o bwysigrwydd a berthyn i'r posibilrwydd yma, a'i ystyried o safbwynt ffydd grefyddol, a bywyd a moes? Honnir fod gwerth tystiolaeth yr ysbrydegwyr yn gynwysedig yn y *sicrwydd* a rydd i ni fod enaid neu ysbryd dyn yn bodoli ar ôl ymadael ohono a'r corff daearol. Tybiaf y cytuna y mwyafrif mawr o Gristionogion fod eu cred mewn bywyd tragwyddol yn rhan hanfodol o'u ffydd. Y mae bywyd tragwyddol yn golygu i'r dyn cyffredin y bydd *ef* byw,—ef ei hun, fel unigolyn, a chanddo gof am ei fywyd a'i brofiad tra yma ar y ddaear. Hwyrach nad oes gan neb ohonom ryw syniad clir iawn ynglyn ag ar ba ffurf y'n gwelir ni, ond tybiwn, mi gredaf y byddwn yn bodoli mewn amgylchedd fydd yn fwy ffafriol i dyfiant a dadblygiad yr enaid na'r amgylchedd y'n ceir ni ynddo yma ar y ddaear. Credwn yn sicr mai tyfiant a dadblygiad fydd ein rhan ni. Pa gymorth a rydd tystiolaeth yr ysbrydegwyr i ni ddal a meithrin y ffydd yma? Cyfaddefaf mai nheimlad personol i ydyw fod tystiolaeth yr ysbrydegwyr yn creu amheuon ac anhawsderau yn hytrach na'u symud. Credaf, fel y dywed Dr. Flower mai personoliaeth yw y peth uchaf y gwyddom am dano, ac fod credu na ellir dinystrio personoliaeth yn rhan hanfodol o brofiad crefyddol. Heb y gred yma yn sicr nid oes yr un ystyr na gwerth mewn bywyd, na threfn na synnwyr yn y bydysawd. Nid oes arnaf angen tystiolaeth unrhyw ysbryd i ategu yr argyhoeddiad yma. Ond teimlaf hefyd, fel y dywed Dr. Flower eto, fod y syniad o fywyd i barhau yn ddi-derfyn o dan

amgylchiadau nid anhebyg i amgylchiadau y byd hwn, yn rhywbeth annioddefol i feddwl am dano*. Ond hyd y medrir gweled rhyw dynged o'r fath yma a addewir i ni gan yr ysbrydegwyr. Ni chredant, mae'n wir yn adgyfodiad y corff, ond credant y bydd i'r enaid demlu mewn rhywbeth a alwant yn "gorff etheraidd", a hwnnw hyd y medrir deall nid yn rhywbeth newydd a ddarperir i'r enaid drigo ynddo mewn bro arall. Yr ydym eisioes yn y corff etheraidd yma. Rhyw fath o niwl ydyw, sydd megis yn llanw yr agenau rhwng y gronynnau a wnant i fyny y corff materol.

Tybiaf y canfyddaf rhyw fath o gysylltiad rhwng y ddamcaniaeth annodd hon a'r ffaith fod natur y negeseuon a dderbynir oddiwrth yr ysbrydion yn gyfryw ag sydd yn ein hargyhoeddi nad oes fawr, os dim tyfiant meddyliol nac ysbrydol wedi cymryd lle yn eu hanes. Ni fyddem yn disgwyl i ysbrydion ymadawedig i ddringo ar unwaith uwchlaw medru cyfathrachu a ni ar ein lefel ein hunain. Ond pan ddywedir wrthym fod mawrion yr oesau pellenig, megis Plato ag eraill yn parhau o hyd ar lefelau meddyliol ac ysbrydol sydd o fewn cyrraedd y *mediums*, ofnaf fod baich rhy drwm yn cael ei osod ar fy ngallu i i gredu, beth bynnag. Pwynt hyn oll yw, mai annodd yw canfod beth sydd yn nhystiolaeth yr ysbrydegwyr sydd o angenrheidrwydd yn cynorthwyo nac yn cyfoethogi ffydd y Cristion mewn bywyd tragwyddol.

Yn y pen draw nid oes dim yn bwysig o safbwynt crefydd ond yr hyn a fedr gyfoethogi y profiad crefyddol, ac fe adwaenir rhinwedd y profiad crefyddol wrth ei ffrwythau. Os y medrir profi fod cyfathrach yr ysbrydegwyr a'r ysbrydion yn cyfoethogi eu profiad crefyddol fel ag y dygo ffrwythau addas cydwybod oleuedig a chymeriad disglaer a chadarn, yna mae ysbrydegaeth yn bwysig; ond ni addefaf er hyn y medr ysbrydegaeth fod yn fwy pwysig nac ychwaith mor bwysig a mudiadau eraill sydd wedi dysgu ar hyd y blynyddoedd a'r oesau fod cymundeb a'r byd ysbrydol ac anweledig yn bosibl ac yn angenrheidiol. Yn wir annodd iawn yw deall pa sail sydd i'r syniad y medr ysbrydegaeth ohoni ei hun fod yn *grefydd*.

Beth felly ddylai fod gogwydd yr eglwysi tuag at Ysbrydegaeth? Cyfaddefaf na'm blinir i, fel y blinir rhai gan y ffaith fod neuaddau yr ysbrydegwyr yn llawn a'r capeli yn hanner gweigion. Mae yn ddigon posibl fod yna rywbeth yn ddiffygiol yn ein neges ni, ond nid yw maint y dyrfa erioed wedi bod yn safon ddiogel i farnu gwerth y neges. Hyd y gwn i ni theimlodd unrhyw broffwyd erioed,—na'r Iesu o Nasareth o bawb, fod dilysrwydd y neges yn dibynnu ar eu gallu i ddenu y tyrfaoedd ac ennill eu cymeradwyaeth. Annogir ni gan rai i gynnal *seances* o dan nawdd ein heglwysi, a thrwy hynny roddi cyfle i'n haelodau i wneud ymchwiliad personol

*Psychological Studies of Religious Questions. Tud. 232.

i ddilysrwydd tystiolaeth yr ysbrydegwyr, a hynny o dan amgylchiadau lle na byddai neb yn debyg o geisio eu twyllo o wirfodd. Ond canlyniad anocheladwy anturiaeth o'r fath fyddai, y deuai y *seance* yn ganolbwynt diddordeb yr eglwys. Heb yr un amheuaeth, trychineb fyddai hyn. Gan nad pa mor hynod a diddorol fyddai digwyddiadau y *seance* ni fyddent i'w cymharu mewn gwerth a phwysigrwydd a phethau canolog yr efengyl.

Credaf hefyd mai teg yw gofyn, os mai nod ein hymchwil feunyddiol yw cyfoethogi ein profiad ysbrydol,—a ydym wedi dihysbyddu y ffynhonnau a dardd wrth ein drysau? Beth am brofiadau ein cyd-ddynion? Pa faint a wyddom am danynt? A gofyniad pwysig arall ydyw hwn,—Faint a wyddom am danom ein hunain? Onid y peth doethaf i bawb o honom fyddai gohirio ein hymchwil am wybodaeth ynghylch profiadau ac opiniynnau ysbrydion ymadawedig hyd nes y byddwn yn gwybod llawer iawn mwy am danom ein hunain, ein posibiliadau a natur yr elfennau o ba rai y gwneir ni i fyny :—hyd nes y byddwn yn gwybod llawer iawn yn rhagor am anhawsderau, a dymuniadau, a dyheadau a delfrydau ein brodyr a'n chwiorydd sydd yn byw yn yr un byd a ni. Ai gormod fyddai gofyn am i ni ymatal rhag porthi ein cywreinrwydd ynghylch yr amgylchiadau o dan ba rai y byddwn fyw yn y dyfodol, a chysegru ein holl egnion i'r gwaith o wneud y byd hwn a'i systemau yn gyfryw ag a'i gwna yn bosibl i'r eneidiau anfarwol a drig ynddo i gael gwell cyfleu yn awr, i dyfu, i flaguro a dadblygu,—fel pan ddaw yr amser iddynt i ymadael, y byddant yn fwy cymwys i fwynhau a gwerthfawrogi y pethau hyfrytach sydd yn eu disgwyl yn y trigfannau a baratoir iddynt gan y Tad.

Cefn Coed. T. L. Jones.

Gwanwyn.

I.

YN gynnar yn y prynhawn cychwynais allan eto o'r tŷ am daith i'm hoff gyrchfan ar lan afon. Wedi cerdded ar y briffordd am ychydig bellter euthum at fwthyn destlus ar gongl rhostir. Wrth y drws chwareuai dau blentyn yn llawen nes imi ddynesu. Yna tawelodd y lleisiau, darfu am y direidi a gwyliodd y llygaid gleision fi a chywreinrwydd. Cywir oedd fy nyfaliad mai ŵyrion ydynt i Ddeio'r Hewl, un o'm hen gyfeillion diddan.

Dyma fi dros glawdd ac ar dir mawnog dilwybr. Tyfai'r "geden lwyd" yn fintai, blith draphlith ar draws y fan gan agor ei llygad a dangos blewyn glas ei hamrant.

Cerddais drwy lain o dir sych a orchuddid ag eithin. Ceid trwch o flodau yn glwstwr ar hyd ei frigau. Ni fedraf lai na'u hedmygu am iddynt ddod ers wythnosau yn llatai i'r Gwanwyn. Deniadol yw eu lliw cain a'u llun cywrain. Rhyfeddaf hefyd at gymaint o gampwaith ar gyfer man mor foel ac ar lannerch unig, anghysbell.

A oes yna werth arbennig mewn blodau â drain o'u cylch? Paham yr amddiffynnir hwy yn y dull hwn? Pa gryfach hawl i'w bigyn a fedd y rhosyn na'r lili? A yw'r melyn ym mlodau'r eithin yn ddrutach na melyn y briallu?

Dyfelais dipyn hyd oni ddeuthum o hyd i esboniad a'm bodlonai. Estynnodd dwylo caredig y pigau i'r eithin rhag i wanc y rhew ac oerni'r eira gipio'r blodau?

Ar hyn dyma fi i ganol gwely o rug. Eithr cysgu'n drwm yr oedd ei flodau dan drwch o ddillad gleision. Bydd gofyn i'r awel aros am fisoedd cyn cael braint o ysgwyd ei glychau bychain o borffor.

Ust! Beth yw'r si ffwdanus a glywaf? Dacw wenynen unig ar daith o flodyn i flodyn.

Mentrodd hi allan yn nhes y prynhawn i gasglu paill yn ddeunydd i'w chrwybr, yn ei chartref trefnus. Os daw cysgod cwmwl bydd gofyn iddi, heb golli ei ffordd na'i hamser ddychwel at ei chyfoedion.

Ymhellach ymlaen gwelais ddarn llyfr dan orchudd trwchus o frwyn a hesg. Cerddais iddo mewn camgymeriad, a bu cyffro nes i'r llaid godi.

O'r gors honno llifai cornant allan i gyrraedd y dyffryn cyfagos. Digon ysgafn yw ei cham hi i gadw'r budreddi'n dawel. Dilynais ei chamre nes dod at lwyni isel a ymledai dros ei glannau. Ar gangau meinion yr helygen eisteddai ei chywion gwyddau mewn plu tuswog o sidan melynwyn.

Âf, weithian, o'r rhosdir ac i lawr drwy gae agored ar lechwedd. Estyn hwnnw'n hamddenol at geulan yr afon. Y llynnedd, yn ôl yr hanes a gefais, cyrchwyd modur i aredig ei wyneb. Eleni, sylwaf â phleser mai yn yr hen ddull y torrir y cwysi. Diamau gennyf fod y peiriannau yn cwrdd a gofynion yr amaethwyr heddiw yn odidog. Onid yw'r gweision yn brin?

I mi, pan ddaw peiriant i aredig maes, yna ymedy barddoniaeth. Gwn, wrth gwrs, na wna barddoniaeth byth drymhau llogell yr amaethwr, ond er hynny, hi rydd ei golud arbennig ei hun.

Pa ddyn sydd heb lygad i loywi, a chalon i lonni wrth ganfod aradwr rhwng y cyrn yn gyrru ei wedd?

Estyn y dref newydd ragor o arian i gwrdd a chyfrifon y byd. Eithr trwy'r hen y pentyrrir y pleser sy'n gyfoeth i fywyd. "Canys pa elw i ddyn yw ennill y byd oll a fforffedu ei fywyd?"

Wrth wylio'r amaethwr yn llunio ei gwysi syth mi syniaf amdano yn ddihenydd. Nid dyn anianol, cyffredin mohono, ond darn o

ysbryd y deffroad ydyw. Daw'n ffyddlon yn adeg yr aredig, ac ymedy'n brydlon. Megys y bu drwy'r canrifoedd y bydd efe eto hefyd.

Ei dad a'i gyndeidiau a ddaeth yma yn y gorffennol. Ei epil, am oesau a estyn y swch drwy dywarchen y dyfodol.

I'r rhychiau ffres, casgl mintai o frain a drudwy yn awchus am luniaeth. Balch yw'r amaethwr o'u gweled yn talu eu pwyth yn ôl iddo. Onid ydynt heddiw yn gymwynaswyr? Felly, efe a anghofia eu difrod drwy Haf. Y mae iddynt hwythau eu cyfran yng nghynllun enfawr Natur yn y Gwanwyn.

Arhô! Llyma gwmni newydd ar y maes.—

"A gwylanod y môr
Yn dilyn llanw'r tonnau pridd."

O'm blaen saif nifer o flodau crynion a adwaenir wrth yr enw—Troed yr Ebol. Synnais droion fod hwn i'w gael mor fynych a chyfoeth ei felyn yn ddrud.

Ni pherthyn i dras uchel, ac ni wisgir amdano enw anrhydeddus. Onid ei frawd annwyl yw'r gwerinwr syml hwnnw—Dant y Llew? Ar waethaf hynny i gyd, hoffaf ei wenau heddiw eto.

Cyfeiriais fy nghamre at yr amaethwr. Wrth i mi nesu ato, gwenai Llygad y Dydd eu sirioldeb arnaf. Gofidiais wrth ganfod y buasent ar fyr dro yn ebyrth i ddifrod swch yr aradr.

Ar ôl imi gyrraedd yr aradwr gadawodd ei geffylau ar ben eu talar, i fwynhau hamdden. Eisteddodd yntau yng nghysgod clawdd i fwyta ei ddogn sych ym mhelydrau'r haul. Cyferchais well iddo, a chafwyd ymgom faith ar lawer testun.

Clywsom arwydd o Wanwyn yn disgyn i'n cyfyl. Melys odiaeth oedd y ddeunod—"spinc-spinc" a yrrai'r asgell fraith atom. Ymhen tipyn daeth yr aderyn du i ganu o golfen uchaf y gollen gyfagos. Hawdd yn wir oedd croesawu ei unawd a ddiferai dros ei big felen.

Ar frigyn uwch ein pen yr oedd robin yn ysbio'n ofalus mewn gobaith am friwson. Efe, wrth gwrs, a fu'n brif unawdydd yr ardal am y misoedd diwethaf. Erbyn hyn collir ei geinciau ym môr peroriaeth y Gwanwyn.

O'm rhan fy hun, dyledus wyf am gathl y robin. Camp yw telori ar frigau moel fel esgyrn sychion, ac ynghwmni prudd y byd diaddurn. Gyrrodd yr hin ddyn mewn brys oddiwrtho, a chysgodd y blodau a'r llysiau yn ei wydd.

Hawdd yw canu heddiw, yn y Gwanwyn, a Natur yn berwi gan gynghanedd bywyd.

Cenais yn iach i'r amaethwr, oherwydd parod ydoedd i ail-gydio yng nghyrn yr aradr. Yr oedd yn fy mryd innau i ymlwybro at fangre yn yr allt. Mae cyfaredd i mi mewn lle agored, crwn a gwastad sydd yno.

Cerddais drwy glwyd i mewn i ddol hir-gul a orweddai gyda glan yr afon. Dyma fi bellach yng nghanol rhyfeddodau'r Gwanwyn. Y cyntaf i'm croeshawu'n galonnog oedd twr o hen gyfeillion. Safent yn syth a syber megys rheng anniben o filwyr. Ni cheir awel i blygu eu pennau mewn gwrogaeth.

Henffych well i chwi yn eich bro! Gwell gennyf eich cael yma nag yn unman arall dan haul.

Pwy ydynt? Neb llai na thyrfa o'r blodyn hwnnw a gyferchir gennym ni yn y gymdogaeth hon fel—Dai Twm Dili. Hyd y gwn, nid oes rif lluosog i'r enw. Ba wahaniaeth am hynny! Geill un ohonynt ar ddol y Neuadd greu Gwanwyn i mi.

Am yr afon a mi, tyfai llinell o gyll yn drwm dan gafod lwydfelen o flodau hirgrwm. Priodol oedd yr enw a ddefnyddiem ar y blodyn rhyfedd hwn. Gelwid ef yn Gwt yr Oen Bach. Crogent yn heidiau digyffro ar y cangau diddail. Wrth weled yr olygfa daeth un o ddymuniadau fy ieuenctid yn ôl i mi. Gobeithiwn y ceid, ar fyr, ychydig o wynt i wasgaru'r paill. Byddai hynny'n sicrhau cynhaeaf toreithiog o gnau gwisgi, yn ôl dyfarniad yr ardalwyr.

Ar golfen uchaf y dderwen a dyf i addurno canol y ddol, canai'r fwyalchen ei thelyn wyl. Nid yw'r tannau weithian yn eu cywair cywir. Cyn hir tynnir hwy gan y tês i'w nodau priodol, peraidd.

Beth? A oes yma ddail ar yr ysgawen acw? Rhaid dynesu. Oes,—ar fy ngair! Mae'r blagur yn dechrau ymagor mewn gwyrdd gwannaidd. Dyma'r dail cyntaf a welais eleni.

I'r chwith rhed clawdd i fyny am ychydig bellter. Ni fedraf gilio heb gael golwg ar ei ryfeddodau yntau hefyd.

Wel, wel!! Dyma dyrfa fechan o fioledau gwyllt yn cysgodi'n dyn wrth waelod y gwrych. Mae'r Sanau Gwcw hyn eleni mor swil a dim a welais erioed.

Beth sydd yn symud, symud yn y llwyn drain yna? Ie'n wir, yr oeddwn yn meddwl mai efe a welswn i. Er ei fod yn fach, diolwg, di-ddawn, am wn i, eto hoffus gan bawb yw y Dryw.

Yn uwch i fyny, ar dor y clawdd, ac yn wyneb haul, tyf blodau a adwaenir ar lafar gwlad yn Flodau Menyn. Tlws odiaeth yw eu melyn tanbaid a disglair.

Yn ôl yr arfer gynt, cydiais mewn un ohonynt gan ei ddal o dan fy ngên. Ar y pryd cofiais na feddwn gyfaill i ofyn iddo—

"Odw i'n lico menyn?"

Hedodd Aderyn Pen Felyn i frigyn gerllaw, ond dychrynwyd ef gan fy ngolwg i. Ymhen tipyn, clywais ei nodau o'r pellter yn estyn maddeuant i grwydryn y glennydd.

Yn uwch, ac ar lechwedd ceid briallu'n bwrw allan eu swyn a'u persawr. Bob tro y gwelaf hwy tosturiaf wrth ddallineb y Peter Bell hwnnw na welai namyn—

"A primrose by a river's brim
A yellow primrose was to him
And it was nothing more."

Cyrhaeddais glwyd a arwain i lôn gul. Wrth droi i'r dde a cherdded hanner canllath deuthum at y bompren.
Pwy a wad imi bellach un orig yma mewn myfyrdod? Cofiaf am ddyddiau dedwydd fy niniweitrwydd iach. Dihunir yr atgofion o bob math yn llawn asbri a nwyf. Cefais yr hyfrydwch o ail fyw darnau diddorol o'm bywyd. Ymestynnai'r gorffennol ger fy mron megys breuddwyd, a'i ddarluniau yn orlawn o swyn.

Ymadawaf a'r fangre i groesi'r afon a cherdded ar y chwith dros lwybr a gaewyd ymron gan ddrain. Gwthiais fy ffordd hyd oni chyrhaeddais lannerch a gyfenwais gynt yn Afallon.

Sŵn awel y Gwanwyn a ddaeth ataf. Seiniau'r pylgain a glywais ar ei gwefus, ac nid nodau'r gosper. Anadl cryf y deffroad a gododd i'm derbyn i afael Gallt Tyglyn Isaf.

Cerddais i gyfeiriad yr afon ac i ymyl Blodyn y Gwynt. Hyfryd oedd ei ganfod megys seren wen fawr, dair modfedd o'r ddaear, ar goes egwan, ac yn plygu'n hawdd i gyffyrddiad tyneraf yr awel. Wrth gydio yn y blodyn ac edrych ar ei gefn gwelais wrid o borffor yn ymledu'n ysgafn dros y gwyn.

Ymlaen ymhellach ceid blodyn a ymddangosodd o flaen ei ddail. Herfeiddiol oedd ei olwg, llwyd-tywyll ei liw, a thyfai'n rhonc. Ei enw yw Dail y Tryfan, neu'r Alan Mawr.

Yn awr, teimlais yr hin yn oeri, yr haul yn ymguddio mewn cwmwl, a gwedd y blodau'n diflasu. A oes ystorm yn ymyl, tybed?

Ar lan yr afon canfum dwmpath o ddail y Garlleg Gwyllt, yn gymysg a thwf mân o Wern. Ceid clwstwr o flodau bychain ar bob coes. Tebyg iawn yw ei ddail i Lili'r Dyffrynoedd. Eithr arogl ddrewllyd o'r un natur a'r wynwyn a fedd y Garlleg, gwaetha'r modd.

Nepell, cefais Fara Can a Llaeth yn blodeuo'n drwchus ar goesau meinion sydd ymron a bod yn anweledig. Tebyg yw eu dail, o wyrdd tyner, i feillion. Pan welais hwy y tro hwn, yn ôl fy arfer, cydiais mewn dyrnaid. Cofiaf am y pleser, a mi'n blentyn direidus, wrth brofi eu blas sur-felys. Tyfai'r fintai yn addurn am droed hen foncyff. Prydferth yw ei wyneb bach gwyn, a'r gwrid cymysg o borffor a glas sydd ar ei gefn.

Weithian, plygai'r Bara Can a Llaeth ei ben yng ngwg yr hin. Tynnai Blodyn Y Gwynt ei fantell yn dyn, gan grynu mewn siom. Crogi'n drist hefyd wnai blodau'r cyll ar gangau gwelw, gerllaw. Llethid cywion gwyddau yr helygen yn y tangnefedd prudd.

Diau bod yna ystorm ar dorri. Gwae fi,—a minnau yn fy Afallon!

Gwedi mwynhau ohonof gymdeithas a'r cyfeillion cynnar hyn eisteddais ar gangen gref ym murmur yr afon. Dihunwyd dau

syniad a'm diddorodd drwy ddyddiau mebyd. Pan yn blentyn credwn yn gryf imi fod yn y byd hwn o'r blaen. Pendefig o dras uchel oeddwn yr adeg honno, ac yn arglwydd dros y darn yma o'r wlad.

Un dydd daeth gelyn rheibus heibio a gorchfygodd fy milwyr cyndyn. O'r herwydd gyrrwyd fi o'r plas yn ffoadur ar draws y gymydogaeth, a thorrais fy nghalon mewn ieuenctid.

Bob tro y troediaf y llannerch hon daw'r meddwl fy mod yn cael ail gynnyg ar ennill yr etifeddiaeth. Rywfodd neu gilydd, cyflyma'r gwaed yn fy ngwythiennau, a fy ngham yn sioncach, fy nghalon yn fwy gobeithiol a thyf fy nghynlluniau am y dyfodol yn aneirif.

Teimlaf felly heddiw eto. Ie, myfi biau'r ystad, ar waethaf y dwylo a'i llywodraetha Triga'r gŵr, a elwir yn berchennog, yn Llundain, a byddaf innau yn cerdded y dolydd a'r llwybrau gydag osgo y bendefigaeth a gollais.

Rhyfedd y byd! Hyd y gwelaf, bydd gofyn imi ymgnawdoli y drydedd waith, o leiaf, cyn dod yn agosach i sylweddoli'r syniad.

Cofiaf i mi yn laslanc ddarllen y stori ddeniadol am y brenin Arthur yn ymadael am Afallon Tybiwn yr adeg honno mai i'r ynys acw gyferbyn a Gallt Tyglyn Isaf yr aeth. Paham? Wel, tybiais mai dim ond un lle yn y byd a gyfetyb i'r darlun hwn gan yr Arglwydd Tennyson—

> "Where falls not hail or rain or any snow,
> Nor ever wind blows loudly; but it lies
> Deep-meadow'd happy, fair with orchard-lawns."

Oni theimlir hindda yma bob amser? Gwneir.

Yn gylch am y plas ceir dolydd breision yn lledu eu cyfaredd amdano. Saif yr adeilad hefyd yn llwydaidd ei olwg a hynafol ei drem. Onid oes perllan deg wrth ymyl? Gwyddwn yn dda, unwaith, am flas ei ffrwythau pêr. Pe deuwn yma ym Medi nesaf, diamau y deffroid fi i'w profi———.

J.S.R.

Gruffydd Jones Davies, Penlan.

RHYDD pob ffarwel gyfleu i daflu cip yn ôl, ac er ein hiraeth ni, y mae ymweliad angau bob tro yn cyfoethogi traddodiad eglwys. Y mae rhywbeth yn foel a di-fywyd ymhob eglwys ifanc. Nid oes ganddi "gwmwl o dystion", ac y mae Eglwys Brondeifi yn ddiddorol am fod "gwŷr y cwmwl" yn eneidiau byw ac agos ac nid enwau annelwig yn y gorffennol pell. Rywsut y mae'n anodd cael eglwys a mwy o gymeriadau mawr

yn perthyn iddi. Hwyrach nad ystyrid mohonynt yn fawr ym marn y byd am eu bod wedi eu gwisgo mewn " brethyn cartre ", ie, brethyn carsi os mynner ond eto'n frethyn sy'n dal yng nghymeriad eglwys. Dwn i ddim am y fintai fach yn Nhyn'rhewl ond y mae yna draddodiad cyfoethog ynghlwm â hi a da cofio fod ryw " ychydig " wedi pontio'r amser hyd heddiw ; cofiwn amdanynt os ydynt yn y gornel.

Medrai rhywun ohonynt dynnu darlun byw iawn o'r hen gymeriadau. Ni cheisiaf i am na welais yr un ohonynt. Hoffwn fod wedi gweld Rees Talfoel—y gŵr ifanc ac ysgrifennydd cyntaf yr eglwys a aeth adre'n gynnar ; David Rees, Eurfaen Hall, y gŵr o fenter a daniodd enaid y Parch. Rees Cribin Jones i symud i gael capel yng nghae Brongest drwy addo Can Punt ; Deio'r Hwper " y gweddiwr mawr " a'r enaid mawr ; Daniel Jones, yr hen godwr canu ; Tom O'Connell ; Herbert Jones, Coedmor ; Edward Williams, " y rationalist " ; John Davies, Lleinau, y gŵr bonheddig ag awdurdod yn ei drem ; David Evans, Cilgell-isaf, y gŵr cyfrifol ei gyngor. Ond pam y'u henwaf a gadael allan gymeriadau cystal. Ni fedraf fynd heibio Lock and Key, Lax a lleoedd eraill heb gofio fy mod ar ddaear sanctaidd am fod seintiau Duw wedi cerdded y ffordd hon.

Dyna'r hen frigâd na chofiaf i. Ddeunaw mlynedd yn ôl, yr oedd yma wŷr cedyrn a choffa da amdanynt bob yr un. Teimlaf eu bod yn anrhydedd i mi gael eu hadnabod.

Mi welaf mewn atcof Samuel Davies, Coedpark, yr amaethwr cyfrifol a selog ; Enoch Davies, y sant diniwed ; Lewis Jones, y gwerinwr goleuedig ; David Davies, selog a bonheddig ei drem ; William Edwards, y gŵr syml a siriol ; Daniel Jones, yr henafgwr tawel ; Williams, Postgwyn, distaw ond a rhuddin ynddo ; heb ddechreu enwi gwŷr a gwragedd eraill a gefnodd yn fy amser i. Medrwn enwi llu o wragedd caredig a haelionus y mae'n iechyd i galon eu cofio, a'r mwyaf di-drwst y mwyaf ei sel a'i haelioni yn aml iawn. Y maent wedi mynd o ran y corff ond y mae'r atgof amdanynt yn felys. Weithian dyma un arall wedi mynd i chwyddo'r cwmwl tystion ac i gyfoethogi traddodiad Eglwys.

Ofer fyddai i mi geisio ei ddarlunio. Rywsut carai fod yn broblem i arall. Nid oech yn sicr o'i feddwl na'i farn. Yr oedd ar yr olwg gyntaf yn sicr yn ei farn ei hun. Cofiaf am gyfaill yn dweyd wrthyf hanesyn ddydd ei farw a'i portreadai i'r dim, ar yr wyneb o leiaf. Sôn yr oedd y cyfaill am y diweddar Barchedig R. J. Jones, Aberdâr, yn siarad cyn dechreu pregethu mewn Cwrdd Chwarter yn Alltyplaca. O dan y pulpud eisteddai'r hen batriarch John Davies. Treiglai deigryn gloyw dros ei rudd o glywed R.J.J. yn dweyd eu bod ill dau yn ffrindiau ers hanner canrif neu ragor, ac meddai " Yr ym ein dau wedi ffraeo lawer tro ond y peth sydd yn od oedd mai *John Davies oedd yn right bob tro* ". Ni fedrai'r Parch. John Davies lai na chwerthin o weld ergyd

ddeheuig yn cael ei anelu at ei benderfyniad di-ildio.

Ar ryw olwg yr oedd Davies, Penlan, felly. Nid adnabyddais i mohono ym Mhenlan nac ym Mrondeifi, ond fe'i hadnabyddais ar yr hewl gul a llethrog o Benlan i Gwmanne. Fe'm hebryngodd ddegau o weithiau i ben bont Teifi a hynny'n hwyr a chawn ei galon heb neb ond ni ein dau a'r lloer yn y cwmni. Daw'r ymgomiau hyn yn fyw i gof heddiw a chredaf iddo ddatguddio mwy o'i feddwl a'i galon y nosweithiau hyn nag yn unlle arall. Nid oedd ddadl nac ysmaldod ar yr hewl, a thrysoraf i'r darlun ohono fel y'i hadwaenais ar yr hewl. Pan gerddwyf y ffordd honno eto, fe'i cerddaf wrthof fy hunan ag yntau a'r lloer yn gwylio a gwrando siarad distaw ond huawdl calon unig.

Gŵr hirben ydoedd a darllenwr mawr ; tyn ar ei biniwn ond ni fedrech ei gymryd yn rhy sariws bob tro, am y carai ddadl. Nid gŵr hawdd ei adnabod mohono ac yr oedd rhyw duedd ysmala ganddo i'w guddio ei hun. Yr oedd yn aml ochrog mewn llawer ystyr ac yr oedd cnewllyn y mater ganddo. O digwyddai iddo fod yn llym ar dro credaf mai o gellwair y byddai ran amlaf ac nid o fwriad. Gŵr profiadol ac amaethwr cyfrifol, ar y blaen yn ei gylch a'i fyd ydoedd ac ae trwy fywyd yn ei ffordd dawel ei hun dan ganu.

Nid oedd yn debig i neb ond iddo ef ei hun, a dychmygaf ei glywed yn chwerthin yn iachus a di-stop heddiw o'm gweld yn ceisio ei ddarlunio.

Na, gyfaill annwyl, ni fedraf i hudo dy bersonoliaeth fyw ysmala i bapur ond gwn yr erys yr atgof am dy sel a'th waith ym Mrondeifi ac am dy galon fawr yn yr ardal.

Medrwn roi mil a mwy o atgofion amdano fel ysgrifennydd gweithgar a blaenor parchus ; medrwn adrodd llawer cyfrinach. Nid â dros gof y nosweithiau pen tymor yng Nglandulas Terrace, y crwydro i'r byd a'r betws, i bobman ond at waith y nos, gwneud cyfrifon yr eglwys, a Mrs. Jones yn barod a'i thê bob tro. Y mae'r aelwyd honno'n wacach ers llawer dydd ond y mae'r croeso lawn mor wresog. Hawdd oedd cydweithio ag ef ond peidio ei gymryd yn rhy sariws gan roi lle i'w hiwmor iach. Cofiaf i ni'n dau fod yn sariws yr un pryd unwaith, a heb ronyn o hiwmor yn perthyn i'r naill na'r llall ohonom, er bod digon gennym ran amlaf, ond ni byddai heulwen Mehefin mor dderbyniol onibai gwybod ohonom am eira'r gaeaf a gwynt y rhew.

Cofiaf amdano ar wely cystudd aml a dioddefodd fwy na'r cyffredin—dyrnod ar ôl dyrnod nes tybio ohonom nas medrid ei gwympo, ond yn ei afiechyd olaf yr oedd yn wahanol. Yr oedd yr ysbryd gwrol wedi llareiddio. Gwyddai fod y diwedd yn agos. Doi y galon gynnes i'r wyneb. Yr oedd yn blês ar bawb ac yn ddiolchgar am bob caredigrwydd. Treuliasom brynhawn ynghwmni'n gilydd—y prynhawn olaf. Nid wyf yn sicr na wyddem hynny'n

dau. Er ceisio cerdded yr hen lwybrau difyr ni thyciai. Yr oedd sŵn yr afon yn ei glustiau a chwmwl ar ei drem.

Wrth ffarwelio, tyner oedd ei ddiolch am orig ddifyr, ac addewais fod yno ar fyr wedyn. Cedwais fy ngair ond ofnid bod ymweliadau cyfeillion yn ei wanhau. Clywais ochenaid ac ambell riddfaniad, dyna i gyd, a gwyddwn fod y " ffrind diddan " yn y glyn.

Y mae aelwyd Penlan yn wag iawn a'r ardal yn teimlo'i cholled. Y mae gweddw a dwy ferch a chwiorydd yn amddifad o golli *cefn*. Bydd Brondeifi'n oerach a gwacach a bywyd yn fwy unig i lawer ohonom.

Y mae o wedi blaenu a dyddiau'r addewid iddo yn ymyl, a thrwy yr hiwmor iach a'r ysmaldod a'r dadlu curai yn ei fynwes galon yn llawn sel dros Frondeifi y gwnaeth gymaint drosti. Gwel llawer cylch ei eisiau'n fawr ac mewn blynyddoedd i ddod pan gyfrif cynulleidfa Brondeifi ei " chymeriadau ", er ei bod yn amheus gennyf iddi ei adnabod yn iawn, credaf y rhydd le anrhydeddus i'r gŵr ymarferol, llawn ysmaldod a hiwmor iach ond eto yn berchen ar galon,—sêl a gweithgarwch yn ei ffordd dawel ei hun—

GRUFFYDD JONES DAVIES O BENLAN.

Marwgofion.

IONAWR 25, Elias Davies, 1, King's Street, Port Talbot, yn 49 oed. Claddwyd y Sadwrn dilynol ym mynwent Pantdefaid lle y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Brodor o Llandysul ydoedd a theiliwr wrth ei alwedigaeth ac yr oedd yn un o Gwmni Callen & Davies, Pontycymer. Daeth nifer o berthynasau a chyfeillion o Llandysul i gwrdd a'r angladd ym Mhantdefaid. Daeth hefyd nifer o gyfeillion iddo gyda'r angladd o Port Talbot. Deallwn ei fod yn grefftwr da a'i fod yn fawr ei barch ym mhlith ei gydnabod. " Gosodwyd i ddynion farw ". Derbynied ei berthynasau ein cydymdeimlad.

Y 25AIN o Ionawr, bu farw Thomas Williams, Glynllwyd House, Queen Street, Aberayron, yn 68 oed, gan adael gweddw mewn galar o'i golli. Cydymdeimla ei chyfeillion yn ardal y Cribyn â Mrs. Williams (Miss Jones, Glynllwyd, gynt) yn fawr yn ei galar. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Eglwys Henfynyw dydd Sadwrn dilynol, y Parch. T. Gwilym Evans, yn gwasanaethu yn y tŷ, y Parchn. E. Basil Herbert a T. F. Lloyd yn yr Eglwys.

DYDD Iau, Ionawr y 26ain, bu farw Evan Evans, 22, Capel Road, Clydach-ar-Dawe ar ôl cystudd cymharol fyr. Cafodd ei eni ym Mlaencathal, gerllaw y lle y ganwyd y diweddar Barch. Jenkin Lloyd Jones o Chicago, ar y 5ed o Fawrth 1862, felly yr oedd ychydig wythnosau yn fyr o gyrraedd ei dri-ugain ac un-arddeg oed. Cafodd yr ymadawedig ei fagu gan ei dadcu a'i famgu Thomas ac Anne Evans, o'r lle uchod, ac wedi hynny o bentref Cwmsychbant. Plwyf Llanwenog. Yr oedd yn un o deulu a adnabyddid yn eang yng nghanolbarth Ceredigion hanner canrif neu dri-ugain o flynyddau yn ôl,

fel masiwniaid medrus. Yr oeddynt yn bump o feibion, a dau ŵyr yn dilyn yr alwedigaeth honno yn ogystal a'r penteulu ei hun. Ychydig amser yn ôl yr oedd yr ymadawedig yn sôn wrth yr ysgrifennydd mai efe, pan yn llanc tair-ar-ddeg oed, oedd wedi cario y morter i gyd i adeiladu Ysgoldy y Cyngor yng Nghwrt Newydd. Pan yn ifanc mynychai yr Ysgol Sul a'r cwrdd yn Llwynrhydowen. Bu yn briod ddwy waith. Y tro cyntaf a Rachel Lloyd, Tyngrug-ganol, o'r hon y cafodd fab, yr hwn sydd yn goroesi, ac yn trigo yn y tŷ drws nesaf i'w dad yn Capel Road. Yr ail wraig oedd Hannah Jane, merch i'r diweddar Peter Jones, *Attendance Officer*, Clydach, o'r hon y mae yn aros ddwy ferch, Myfanwy, Capel Bangor, Aberystwyth, ac Annie yr hon a fu yn gweinu mor dyner ac mor ofalus arno er pan gollodd ei briod bedair blynedd yn ôl. Yr oedd yr YMOFYNNYDD yn ymwelydd cyson a chroeshawgar yn nhŷ Evan Evans ar hyd y blynyddau. Credaf fod y diweddar Mrs. Evans, er mai Methodist ydoedd o ran cysylltiadau crefyddol, yn cael pleser mawr wrth ei ddarllen, ac yng nghwrs amser wedi dod yn hyddysg yn hanes yr eglwysi Undodaidd yng Nghymru. Un tawel a darbodus, a gofalus am ei amgylchiadau tymhorol oedd yr ymadawedig. Rhoddodd orchymyn pendant nad oedd dim llawer o "fuss" na seremoni i fod yn ei angladd, ac i fod ei hen gyfaill, a fu yn cyd-ysgolia ag ef yn ysgol Llanwenog 'slawer dydd, i wasanaethu ynddo. Cymerodd yr angladd le dydd Llun, Ionawr y 30. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. G. Rees, Trebanos, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. J. D. Jones, Gellionnen; Gomer Roberts, Salem, Fardre, a Daniel Johns, Gosen, Trebanos. Claddwyd ei weddillion ym medd ei briod ym mynwent y Methodistiaid, Salem Fardre, Clydach-ar-Dawe. Dilynwyd ei weddillion i'r gladdfa gan ei fab, ei ddwy ferch, pedwar o ŵyrion, dau frawd, a nifer luosog o'i hen gyfeillion. Bendith y Nef fo ar ei blant a'i ŵyrion sydd yn gweled ei le mor wâg.

Nodion yr Eglwysi.

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.—Nos Lun, Ion. 2, 1933, cynhaliwyd y cwrdd arferol i anrhegu deiliaid yr Ysgol Sul. Dechreuwyd trwy fod pawb yn cael eu diwallu a digonedd o dê a bara brith, a scwrs fach wrth y bwrdd. Dilynwyd hyn gan gyfarfod amrywiol dan lywyddiaeth Mr. D. T. Williams, Clifton Street, Arolygwr yr Ysgol. Cafwyd unawd ar y berdoneg gan Miss Nancy Evans, caneuon gan Mrs. Edgar Williams, Mr. Josiah Davies, Marian Davies, David Evans, a chanodd Mrs. J. R. James amryw o benillion oedd wedi eu cyfansoddi gan Mr. Edgar Williams yn delio a'r achlysur (peth newydd i'm oedd darganfod fod gennym fardd yn ein plith). Cafwyd adroddiadau gan Glenys Evans, Eifion Morgan a Ronald Davies. Cafwyd hefyd bedwarawd a thriawd gan rai mewn oed. Yna aethpwyd i anrhegu y plant am eu ffyddlondeb ar hyd y flwyddyn. Estynwyd y llyfrau i'r plant gan y gweinidog y Parch. E. R. Dennis gan eu hannog i fod yn ffyddlon drwy y flwyddyn yma eto; hefyd addawai y byddai yn gwobrwyo y plentyn a ddeuai a'r traethawd goreu iddo ar y llyfr a dderbyniasai. Dyma gyfle ardderchog i'r plant ddangos pwy mor drwyadl y maent wedi darllen y llyfr, a phwy argraff y mae wedi adael arnynt. Gofalwyd gan yr Arolygwr fod digon o deganau a melusion i'w rhannu rhwng y plant. Gwelais fod rhai o'r brodyr a'r chwiorydd henaf wedi ymrestru gyda'r plant hefyd y noson yma, canys yr oeddynt wedi mynnu tegan bach i'w difyrru. Wel, parhau yn ieuanc yw'r gamp onite. Yr oedd cynulliad da iawn wedi dyfod ynghyd a phawb yn mwynhau eu hunain i'r

ymylon. Derbynied pawb a wnaeth rywbeth i hwylysu y cwrdd, ein diolchgarwch gwresocaf. Rhaid yw enwi Urdd y Benywod canys hwy a baratodd y tê. Mae yr adran yma o'n heglwys yn weithgar iawn, a thrwy eu gweithgarwch rhoddant help ariannol i'r eglwys nid bychan, a theilyngant ein diolchgarwch gwresocaf.

Wedi gweled o honof yr erthygl "Canmlwyddiant Rebel" yn y rhifyn diwethaf o'r YMOFYNNYDD, credais nad oedd ond teg cofnodi ein bod ni fel eglwys wedi cynnal gwasanaeth coffa am yr hen wron a Lyn Cothi fore Saboth Ionawr 29ain, 1933. Cawsom fraslun bywgraffiadol gan y gweinidog gan ein hannog yn daer i efelychu ei ddewrder a'i ffyddlondeb o blaid rhyddid barn a chydwybod. Defnyddiwyd emynau o'i eiddo drwy y dydd a chafwyd hwyl dda wrth eu canu. Oes derfysglyd iawn oedd pan ddechreuodd y Parch. Tomos Evans bregethu, yn enwedig pregethu syniadau oedd yn groes i'r daliadau cyffredin. Rhaid oedd cael trwydded i'r ystafell cyn pregethu ynddi, a bu tad Tomos Evans mor garedig a thrwyddedu ystafell o'i dŷ er iddo gael mantais i gyhoeddi ei syniadau. Galwyd yr ystafell yn Dŷ Cwrdd Glyn Cothi, y tŷ cwrdd cyntaf i ddal syniadau Undodaidd. Daeth yn weinidog i'r Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr yn y flwyddyn 1811 a bu yma yn gweinidogaethu hyd ei farwolaeth Ionawr 29, 1833, yspaid o 22ain o flynyddau. Gorwedd ei weddillion ar ochr ddwyreiniol o'r Hen Dŷ Cwrdd. Gŵr galluog, yn feddiannol ar syched diderfyn am wybodaeth, hefyd yn feddiannol ar gof gafaelgar iawn.

TRECYNON.—Nos Iau, Chwef. 2, 1933, cynhaliwyd cwrdd arbennig yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon. Cwrdd undebol dan nawdd eglwysi Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed ; Highland Place, Aberdâr a Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon. Cymerwyd y drefn ganlynol : aeth y Parch. V. M. K. James, gweinidog Highland Place, drwy y rhan ddefosiynol, pregethwyd gan y Parch. T. L. Jones, Cefn Coed, ac arweiniwyd mewn gwasanaeth Cymun gan y Parch. E. R. Dennis gweinidog Hen Dy Cwrdd, Trecynon. Mae ein diolch yn ddyledus i'r tri gweinidog am drefnu y cwrdd, canys eiddynt hwy yw'r syniad. Nid oes gennym gof am gwrdd cyffelyb o'r blaen. Cawsom gynulliad da ac awyrgylch wrth fodd calon pawb, presenoldeb y peth byw a wna i galon dyn lawenychu. Hyderaf y gwna cynrychiolwyr y gwahanol eglwysi ymdrechu meithrin yr awyrgylch yma yn eu heglwysi nes dod ohonom yn ôl eto i gydgyfarfod a'n gilydd wrth fwrdd Cymun Undebol.

LLWYNRHYDOWEN.—Bu Miss Joan Owen ar ymweliad â'r gangen o Urdd y Benywod yma nos Wener, Chwefror 18 ac yn ceisio cyfarwyddo yr aelodau sut i wneud rhai pethau ag oedd hyd hynny dipyn yn ddieithr iddynt. Daeth nifer lled dda ynghyd i'w chyfarfod—er i amryw fethu yn herwydd anwyd—a bu hithau'n fedrus iawn gyda'r gwaith. Teimlwn yn wir ddiolchgar iddi am ei gwasanaeth ac am ei haddewid i ddod eto. Cyn ymwahanu cafwyd cwpaned bach melus o dê.

BRONDEIFI.—Brynhawn Sul diwethaf, ar waethaf yr eira na chofir mo'i debig, cafodd yr Eglwys anrheg dlos o Lestri Cymun arian (E.P.N.S). ar gyfer y clâf a'r methiedig mewn blwch lledr ac ar glawr y blwch ar blât arian ceid yr ysgrifen a ganlyn :

> " Rhodd Er Cof am Lewis D. Jones, Diacon a Thrysorydd Brondeifi, 1861—1927, gan ei ddwy ferch."

Y mae angen gair o esboniad er mwyn ein darllenwyr. Ni phwysleisiwn ni y " Cymun " fel rhai o'r eglwysi eraill ond gwn am lawer hen Undodwr pan fetha gyrraedd ar Sul Cymundeb a garai " gymundeb " yn ei lesgedd a'i afiechyd. Ar gyfer y cyfryw y mae'r rhodd hon, ac y mae'n brydferth, teilwng o'r gwasanaeth Cymun ar ei oreu. Ni wyr ein cylch ni gymaint a ddylasai am y gŵr a goffheir a chredaf ei fod yn un o'r lleygwyr mwyaf goleuedig a blaengar. Bu yn aelod o'r Cyngor Tref am flynyddoedd a chofiaf i mi

awgrymu nad oedd Brondeifi wedi cael Sul y Maer yn ei hanes. Ni ddywedais mohono ond mewn *joke* ond pan ddaeth pen tymor derbyniodd Mr. Jones anrhydedd Maer Llanbedr am y flwyddyn a hynny *er mwyn Brondeifi*, a chredaf mai da i'r dref ei gael ar adeg y bwriedid codi tai ar y Bryn i fod fel maen melin am wddf y dref dro hir. Gwehydd oedd wrth ei alwedigaeth a phen crefftwr. Pe digwyddai i rai ohonoch droi i mewn i'r Museum yng Nghaerdydd a cherdded drwy'r Gegin Gymraeg sylwch ar y gwely sydd yno a chofiwch mai gwaith Mr. Jones yw y *bedspreads*. Yr oedd yn ddiacon a Thrysorydd yr Eglwys ac yn ŵr selog dros ei gapel a thros ei egwyddorion, ond machludodd ei haul yn rhy gynnar o lawer iawn. Amcan y rhodd gan ei ddwy ferch y sydd yng Nghraigcefnparc ydoedd cadw coffa eu tad yn wyn yr yr eglwys, a da i ni yw bod Mrs. Jones y fam yma i awgrymu y rhodd werthfawr. Gobeithio er ymhell na bydd i'r ddwy ferch anghofio y graig o'r hon y'u naddwyd. Diolchwyd yn gynnes i'r ddwy ferch a'r fam am y rhodd werthfawr a derbynion gan y gweinidog.

Yr un prynhawn hefyd sylwyd ar gyfnewidiad arall. Yn Rhifyn Chwef. croniclwyd rhodd o Feibl Newydd Hardd i'r Eglwys, ond gan mai stand brês y sydd yma sylwyd ei bod yn rhy fach i ddal y Beibl agored newydd. Sylwodd llawer un ohonom ar hyn ond sylwodd *un i bwrpas* a gwelsom y prynhawn Sul diwethaf fod un o'n blaenoriaid Thomas Davies, Delville, ac yntau yn ben crefftwr fel gôf wedi mynd ati i ddiwygio pethau. Nid oedd modd torri'r Beibl i ffitio'r stand ond llwyddodd i ledu'r *stand* a phrês nes cael y Beibl newydd i orwedd yn esmwyth arni. Edrychai fel un newydd a thalwyd diolch gwresocaf y gynulleidfa iddo am y gwaith ac am ei wneud o'i galon.

Ni wn i a oes rhywbeth o flaen ein hamser yma ond y mae yma roddion eraill ar y ffordd ac nid bai'r rhoddwyr mohono na buasent wedi cyrraedd. Y mae'n dda gweld calonnau caredig a hael mewn cynulleidfa ac y mae pob rhodd yn siarad mwy na'i gwerth mewn aur—y mae'n dweyd fod calonnau yma yn dwym am yr achos ac yn ei garu yn anghherddol.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMRAEG.

LLYWYDD—Y PARCH. H. H. CEIRON JONES, B.A., ABERDEEN.

— CYNHELIR —

CYFARFODYDD CHWARTEROL

Y GYMDEITHAS yn

HEN-DY-CWRDD, CEFNCOED-Y-CYMER

Hwyr Llun a Dydd Mawrth, Ebrill 24 a 25, 1933.

Trefn y Cyfarfodydd :—

NOS LUN am 7.—Gwasanaeth Saesneg—Pregethir gan y Parchn. T. O. Williams, M.A. a S. Evans Bowen.

FORE MAWRTH am 10.30.—Pwyllgor y Gymdeithas.

NAWN MERCHER am 2.30.—Pregethir gan y Prifathro J. Park Davies, M.A., B.D. a'r Parch. Dewi Jones, Capelygroes a Chribyn.

HWYR MERCHER am 7.—Pregethir gan y Parchn. E. O. Jenkins a Lewis Williams.

CROESO CYNNES I BAWB.

Ymholer am lety â'r Parch. T. L. JONES, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

J. D. Lewis, Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,
Llandyssul.

Ni ellir gwell anrheg i Athro neu Ddisgybl yn yr Ysgol Sul

— na chopi o'r —

Geiriadur Beiblaidd

Dwy Gyfrol, Chwarter Rhwym, Graen Moroco - £2 10s.
Dwy Gyfrol, Lliain Cynfas Cryf - - £2 2s.

I'w gael o SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.